RHIFYN
ISSUE
26
18.05.20

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

25.05.20 – Gwyliau Hanner Tymor - Sulgwyn
Half Term Holiday – Whitsun
01.06.20 – Addysgu a dysgu o bell yn ail-ddechrau
Distance teaching and learning recommences

PECYNNAU LLES RCT
RCT WELLBEING PACKS

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn RhCT yn dymuno parhau i gefnogi teuluoedd yn ystod y cyfnod heriol yma. Bydd gweithwyr proffesiynol ar gael i gynnig cyngor i helpu rhieni i fodloni anghenion dysgu a llesiant eu plant. Maent yn cydnabod bod cau'r ysgolion yn heriol i nifer ohonom, ac mae'r pryderon ynghylch y Coronafeirws yn debygol o gynyddu gorbryder plant a'u teuluoedd.
Gweler cyfres o Becynnau Lles a fydd o gymorth i chi, efallai, yn ystod y cyfnod heriol hwn ar y dudalen hon.
The Educational Psychology Service in RCT wish to continue to support families in these challenging times. They will be available to provide advice to help parents in their response to meeting the learning and wellbeing needs of their children. It is recognised that the current school closures will be challenging and the concerns around Corona Virus may increase the anxiety of children and families.
Please find a series of Wellbeing Packs which could be of support to you during this challenging period here.

GOFAL PLANT BRYS
EMERGENCY CHILDCARE

Bydd darpariaeth Hwb Llanhari yn parhau am y dyfodol agos. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.
Llanhari Hub provision will continue for the near future. Click here for further information.

RHONDDA CYNON TAF

CADW MEWN CYSYLLTIAD
KEEPING IN CONTACT

Yn gyntaf oll, hoffwn i ddiolch i'r disgyblion, ein teuluoedd a staff yr ysgol am eu holl waith caled, cefnogaeth a dyfalbarhad ers i ni orfod cau'r ysgol ar Fawrth 20fed. Ers hynny, mae llawer o waith caled wedi parhau yn yr ysgol Hwb, Ysgol Llanhari, neu gartref rhwng yr athrawon a'r plant i gyd. Diolch yn fawr iawn i'r rhai ohonoch sydd wedi rhannu gwaith / lluniau gyda ni – parhewch i wneud hyn os gwelwch yn dda trwy gyfeiriadau ebost y dosbarthiadau ar wefan yr ysgol. Hefyd, trydarwch eich lluniau gan ychwanegu @YGGGLlantrisant i'ch twîts. Braf iawn yw gweld wynebau ein ffrindiau bach a gweld eu bod yn parhau i weithio'n galed gartref gyda chi. Hefyd, gofynnir yn garedig i chi gadw mewn cysylltiad â'ch athrawon dosbarth os oes gennych gwestiynau neu os hoffech chi rannu lluniau a gwaith â nhw. Cewch wneud hyn trwy ebostio'r dosbarthiadau. Am unrhyw gwestiynau eraill ynghylch materion ysgol gyfan, cofiwch ddefnyddio cyfeiriad ebost 'Admin' yr ysgol.
Fel y gwyddoch, gwahanol iawn yw'r farn, y cyngor a'r trefniadau ar gyfer ail-agor ysgolion y naill ochr i'r Bont Hafren. Ar hyn o bryd, nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch ail-agor ysgolion yng Nghymru felly nid ydym yn gwybod mwy na chi. Fel arfer, byddwn yn rhannu unrhyw newyddion / trefniadau gyda chi unwaith i ni gael glywed. Un peth sy'n sicr, pan gawn ni'r neges holl bwysig, ni fydd ysgolion yng Nghymru yn debyg i'r dyddiau cyn Mawrth 20 fed. Dim ond amser a ddengys.
Bydd addysgu a dysgu o bell yn parhau wythnos nesaf, Mai 18fed, gydag wythnos o wyliau i holl gymuned yr ysgol yn ystod wythnos y Sulgwyn, wythnos yn dechrau Mai 25ain. Bydd y system bresennol yn parhau ar ddydd Llun, Mehefin 1af. Diolch am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel ac yn iach.
Firstly, I should like to thank all the pupils, our families and school staff for all their hard work, support and perseverance since the enforced closure on March 20th. Since that day, a great deal of hard work has continued either in the Hub School, Ysgol Llanhari, or between the pupils and staff at home. Many thanks to those of you who have shared work / photographs with us – please continue to do so through the class email addresses which can be found on the school website. Also, please add @YGGGLlantrisant to any tweets you make. It's great to see our little friends' faces and hard work with you at home. Also, you are kindly asked to keep in touch with the teachers should you have any questions or if you would like to share pictures and work with them. Please do this through the class email addresses. For any whole school matters or questions, please use the Admin email address.
As you will be very aware, the opinions, advice and arrangements for reopening schools either side of the Severn Bridge are very different. Presently, no firm decision has been made regarding the reopening of schools in Wales so we know no more than yourselves at this moment. As is usual, we shall share any news / arrangements with you as soon as we receive any information. One thing is sure, when we receive the all important message, schools in Wales will not resemble the set-up which we were used to before March 20th. Only time will tell.
Distance teaching and learning will continue next week, May 18th, with a week of Whitsun holidays the week beginning May 25th. We shall then return to the system as we currently know it on Monday June 1st. Thank you for your support and keep safe and well.






UST HARI!

SHHHH HARI!

A welsoch chi un arall o'n disgyblion ar y teledu yr wythnos hon? Newyddion ITV Cymru y tro'ma. Mae Hari Griffiths wedi bod yn brysur iawn ond yn dawel iawn gartref yn cymryd rhan mewn gweithgaredd i godi arian at @Velindre. Tasg tawelwch noddedig wnaeth Hari ac edrychwn ymlaen i glywed am faint o arian gododd e at yr achos arbennig hwn er cof ei fodryb Rhian oedd yn Gynorthwyydd Addysgu gyda ni yn yr ysgol. Os hoffech gyfrannu, cliciwch yma. Da iawn ti, Hari!

Did you see another of our pupils on the television this week? ITV Wales News this time. Hari Griffiths has been very busy but very quiet at home lately taking part in a sponsored task to raise money for @Velindre. Hari took part in a sponsored silence and we are looking forward to see how much money Hari raised for this very worthwhile cause in the memory of his Aunty Rhian who was a Teaching Assistant with us at school. Should you wish to contribute, click here. Well done, Hari!



CYFEIRIADAU EBOST

EMAIL ADDRESSES

Cofiwch gadw mewn cysylltiad!
Remember to keep in touch!

Dosbarth 1 *Class 1*	*1d5@hwbcymru.net*
Dosbarth 2 *Class 2*	*2d5@hwbcymru.net*
Dosbarth 3 *Class 3*	*3d5@hwbcymru.net*
Dosbarth 4 *Class 4*	*4d5@hwbcymru.net*
Dosbarth 5 *Class 5*	*5d5@hwbcymru.net*
Dosbarth 6 *Class 6*	*6d5@hwbcymru.net*
Dosbarth 7 *Class 7*	*7d5@hwbcymru.net*
Dosbarth 8 *Class 8*	*8d5@hwbcymru.net*
Dosbarth 9 *Class 9*	*9d5@hwbcymru.net*
Dosbarth 10 *Class 10*	*10d5@hwbcymru.net*

Cofiwch ymweld â / *Remember to visit:* **www.ygggllantrisant.cymru**

I'CH ATGOFFA

A REMINDER

Cofiwch fod llwyth o wybodaeth a deunydd defnyddiol ar gael ar wefan yr ysgol. Dyma ambell i dudalen bwysig i chi:
Remember that there's a wealth of information and useful material available on the school website. Here's just a few important pages for you:

SYMUD O FLWYDYDN 6 I YSGOL LLANHARI / *MOVING ON TO YSGOL LLANHARI FROM YEAR 6*
https://ygggllantrisant.secure-primarysite.net/trosglwyddo-blwyddyn-6-i-7-year-6-to-7-transition/

GWEFANNAU DEFNYDDIOL / *USEFUL WEBPAGES*
https://ygggllantrisant.secure-primarysite.net/gwefannau-defnyddiol-useful-websites/

FIDEOS / *VIDEOS*
https://ygggllantrisant.primarysite.media/

TUDALENNAU'R DOSBARTHIADAU / *CLASS PAGES*
https://ygggllantrisant.secure-primarysite.net/dosbarthiadau-classes/

TUDALEN MISS WRIDE / *MISS WRIDE'S PAGE*
https://ygggllantrisant.secure-primarysite.net/miss-wride-ymyraethau-interventions/

TUDALEN MRS SMITH / *MRS SMITH'S PAGE*
https://ygggllantrisant.secure-primarysite.net/dysgu-gartref-learning-at-home-4/

TUDALEN ELSA / *ELSA PAGE*
https://ygggllantrisant.secure-primarysite.net/elsa/

I ddod o hyd i nifer o adnoddau ychwanegol yn y Cyfnod Sylfaen
To access many extra resources in the Foundation Phase

Cliciwch ar:
Click on:

PLANT / *CHILDREN*
DOSBARTHIADAU / *CLASSES*
DOSBARTH ?? / *CLASS ??*
DYSGU GARTREF / *LEARNING AT HOME*
ADNODDAU YCHWANEGOL / *ADDITIONAL RESOURCES*



NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA

PEACE AND GOODWILL MESSAGE



Mai'r 18fed yw Diwrnod Neges Heddwch ac Ewyllys Da Cymru yr Urdd. Bob blwyddyn ers 1922, mae pobl ifanc Cymru yn anfon neges o heddwch i bobl ifanc dros y byd. Dyma'r unig neges o'i math yn y byd!
The Urdd Peace and Goodwill Message is unique to Wales, and has been delivered annually for 98 years by the young people of Wales addressed to young people all over the world.



Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**